Y PASG 6

ACTAU 16:9-15; SALM 67;
DATGUDDIAD 21:10; 21:22–22:5; IOAN 14:23-29

● **Gweddi agoriadol**

Boed i'r tangnefedd sydd y tu hwnt i ddeall,
sydd â'i wraidd
yn y Tad a'r Mab a'r Ysbryd,
fod gyda ni yn ein cyfarfod,
i lonyddu ein heneidiau
a rhwymo ein calonnau yn un.
Boed i sibrwd tyner
Duw gras
siarad â ni wrth addoli,
wrth ddarllen a deall yr ysgrythur,
a bod yn neges ein bywyd
wrth i ni ymadael â'r lle hwn.

● **Moliant**

Boed i'r cenhedloedd dy foli;
boed i'r holl genhedloedd dy foli!

Rwyt yn teyrnasu dros dy bobl gyda chyfiawnder a doethineb,
yn eu bendithio â gras a thangnefedd
ac yn cynaeafu ble yr heuir dy hadau.

Boed i'r cenhedloedd dy foli;
boed i'r holl genhedloedd dy foli!

O genhedlaeth i genhedlaeth
arweiniaist dy bobl at y dyfroedd bywiol
ac at ffrwythlondeb lle dangosir dy gariad.

Boed i'r cenhedloedd dy foli;
boed i'r holl genhedloedd dy foli!

● **Cyffes**
Pryd bynnag y bydd hunan yn cuddio angen eraill,
maddau i ni.
Pryd bynnag yr anghofiwn pwy yw ein cymydog,
maddau i ni.
Pryd bynnag y cerddwn heibio yr ochr arall,
maddau i ni.
Pryd bynnag yr anghofiwn ddweud 'Da iawn!'
maddau i ni.
Pryd bynnag yr anghofiwn y llwybr i'w gerdded,
maddau i ni.
Am yr holl adegau pan rown ddagrau yn dy galon,
tyn ni yn ôl i'th freichiau trugarog
a dysg i ni, unwaith eto, dy ffordd.

● **Diolch**
Arweinydd: Dduw y foment
Pawb: Diolchwn i ti am dy holl fendithion.

Ym mynd a dod bywyd bob dydd,
rwyt yn goleuo'r ffordd,
yn dangos y llwybr i ni ei gerdded
ac yn arwain ein calonnau a'n heneidiau mewn moliant.

Arweinydd: Dduw y foment
Pawb: Diolchwn i ti am dy holl fendithion.

Ym mynd a dod bywyd bob dydd,
does dim tywyllwch yn ein rhwystro;
mae dy ogoniant yn disgleirio yn ein calon
wrth i ni gerdded
ble rwyt ti yn ein harwain bob dydd.

Arweinydd: Dduw y foment
Pawb: Diolchwn i ti am dy holl fendithion.